# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Hydref 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes bwriad i sefydlu swyddfeydd rhanbarthol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ1576VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod cynrychiolwyr o Gymru ymhlith cynrychiolwyr y DU. (WAQ1597VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Gyllid

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi gadarnhau ei bod yn dal yn bosibl rhagweld y bydd cost adeilad newydd y Cynulliad o fewn y gyllideb. (WAQ1581VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad i ddweud paham ei bod bellach yn angenrheidiol caffael tir ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad, a pham na sylweddolwyd ynghynt bod angen gwneud hynny. (WAQ1582VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad i ddweud a oes mwy o dir yn cael ei gaffael ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd. (WAQ1580VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi'u derbyn yngln â'r taliadau a godir am gasglu ysbwriel gardd yn Sir Benfro, ac a wnaiff gyhoeddi'r sylwadau hynny. (WAQ1589VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fath o ymgynghori a fu gyda'r awdurdod

lleol a thrigolion lleol yngln ag ailadeiladu Freemans Way, Hwlffordd. (WAQ1588VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau a dderbyniwyd ganddo ar y taliadau y bwriedir eu codi yn Sir Benfro am roi cychod i gadw dros y gaeaf, ac a wnaiff gyhoeddi ei sylwadau. (WAQ1587VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw gynnydd wedi bod o ran dod o hyd i ddefnydd ar gyfer hen wersyll hyfforddi Cwrt y Gollen ar gyrion Crucywel, Powys. (WAQ1590VB)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru)** Pa drefniadau arbennig y mae wedi'u gwneud â Chyngor Sir Ddinbych er mwyn rhoi cymorth iddynt ddatrys eu problemau ariannol presennol. (WAQ1594VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A ydyw wedi derbyn unrhyw sylwadau yngln â'r ffordd fynediad i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, Y Clas-ar-Wy, a'r peryglon i rieni a phlant ar y ffordd honno, ac a wnaiff datganiad am y mater hwn. (WAQ1599VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth sy'n cael ei wneud i gwtogi rhestrau aros ac amseroedd aros yng Nghymru. (WAQ1584VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi gyhoeddi'r sylwadau y mae wedi'u derbyn yngln â pheidio â darparu gwasanaethau ambiwlans gyda'r nos yng Nghrucywel, Bronllys a Llanfair-ym-Muallt, Powys. (WAQ1586VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad yngln â'r gwelyau sydd ar gael yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ar gyfer pobl sy'n ddifrifol wael. (WAQ1585VB)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** A wnaiff hi amlinellu bwriad y Cynulliad o ran y 'Cynllun Grant Cymorth i Bobl ag Anableddau', y disgwylir iddo ddod i ben ar 31 Mawrth 2000. (WAQ1595VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff roi manylion yr ymdrechion sy'n

parhau i gael eu gwneud i ddenu swyddi i Ystradgynlais, er gwaethaf y llwyddiant diweddar wrth ddenu Lyle i'r gymuned. (WAQ1579VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff gyhoeddi rhestr o'r Swyddfeydd Post sydd wedi cau yng Nghymru ers 1 Mai 1999. (WAQ1578VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi bod ar gael i Ddistyllfa Aberhonddu yn y gorffennol, a pha grantiau a fydd ar gael yn y dyfodol. (WAQ1577VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynigion sydd ganddo ar y gweill i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi cefnogaeth ar gyfer agor adeiladau newydd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn 2000. (WAQ1596VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynigion sydd ganddo ar y gweill i fanteisio ar wythnos Gymreig yn Ewrop ym mis Mawrth 2001. (WAQ1598VB)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn yng Nghymru, ac a wnaiff gyhoeddi manylion y trafodaethau y mae wedi'u cael ar y mater hwn â deiliad y swydd gyfatebol yn San Steffan. (WAQ1593VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad yngln â pha sylwadau y mae wedi'u derbyn ar y posibilrwydd o wahardd hela a physgota yng Nghymru, ac a wnaiff hi gyhoeddi'r sylwadau hynny. (WAQ1592VB)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pam y bu oedi wrth geisio sicrhau bod ffurflenni'r cynllun cymorth organig ar gael ym mis Hydref. (WAQ1591VB)